Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Is-ddeddfwriaeth: 9 Chwefror 2005

Trafododd y Pwyllgor y ddwy eitem ganlynol o is-ddeddfwriaeth ar Ddydd Mercher 9 Chwefror 2005:

Rheoliadau Addysg (Cymwysterau a Chofrestru Penaethiaid) (Cymru) 2005 (ELL-07-05)

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 (ELL-29-04)

Roedd y Gweinidog wedi darparu copi o'r rheoliadau, memorandwm esboniadol, gwerthusiad rheoleiddiol a chrynodeb o'r ymateb i'r ymgynghori.

Mae'r gyfres gyntaf o reoliadau (ELL-07-05) yn sicrhau ei bod hi'n ofynnol ar y rhai sy'n dod yn benaethiaid am y tro cyntaf ar ysgolion a gynhelir gan awdurdod addysg lleol, ac ysgolion arbennig nad ydynt yn cael eu cynnal felly, ac a benodir i swydd pennaeth ar 1 Medi 2005 neu ar ôl hynny: feddu ar Gymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol(NPQH) ar gyfer Penaethiaid yng Nghymru neu gymhwyster cydradd yn Lloegr,Yr Alban neu Ogledd Iwerddon; fod yn athrawon cymwysedig; a bod wedi'u cofrestru'n athrawon.

Yn y drafodaeth codwyd y materion canlynol:

- **Cyllido;** Lefel a dull y cyflwyno;
- **Proffil Oed y Proffesiwn;** A derbyn bod cyfran helaeth o benaethiaid yn mynd i ymddeol yn ystod y pum mlynedd nesaf, a oedd y Gweinidog wedi caniatáu digon o arian i gefnogi penaethiaid newydd wrth iddynt astudio ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth CPCP(NPQH);
- **Cydnabod cymwysterau eraill;** A roddwyd ystyriaeth i'r syniad o gydnabod cymwysterau eraill (e.e. Gradd Meistr) wrth ddyfarnu'r cymhwyster CPCP(NPQH).

Wrth ymateb, dyma'r pwyntiau a nododd Y Gweinidog:

- **Cyllido;** Cyfeiriodd Y Gweinidog at baragraff 6.2 yn y crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghori;
- **Proffil Oed y Proffesiwn;** Ceid cyllido priodol;
- **Cydnabod cymwysterau eraill;** Dywedodd Philip Rogers, un o swyddogion y Gweinidog, fod y mater hwn wedi cael ei drafod ond teimlid nad oedd hi'n briodol cydnabod cymwysterau eraill i'r diben hwn, gan mai cymhwyster ymarferol yw CPCP, gyda'r bwriad o ddatblygu rhinweddau arweinydd.

Ni chafwyd cynigion i ddiwygio ac argymhelliad y Pwyllgor oedd bod y rheoliadau drafft yn cael eu cymeradwyo.
Mae'r ail gyfres o reoliadau (ELL-29-04) yn rhagnodi materion ynghylch apelau o dan adrannau 94 a 95 Y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Addysg 2002.

O dan adran 94, mae'n rhaid i awdurdod addysg lleol neu gorff llywodraethol, yn achos ysgolion sefydledig neu ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, wneud trefniadau i alluogi rhieni i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch derbyn plentyn i'r ysgol, gan gynnwys penderfyniadau sydd yn gwrthod derbyn plant sydd eisoes yn yr ysgol i chweched dosbarth yr ysgol honno.

O dan adran 95, mae'n rhaid i awdurdod addysg lleol wneud trefniadau i alluogi corff llywodraethol ysgol gymunedol neu ysgol a reolir yn wirfoddol i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod i dderbyn plentyn sydd, ar adeg gwneud y penderfyniad, wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol o leiaf.

Yn y drafodaeth, crybwyllwyd y pryderon a ganlyn:
- **Amseru;** Pam yr oedi wrth ddiwygio'r canllawiau ar amseru, ac a yw'r amser a gymerir gan yr apelau yn cael ei fonitro gan Lywodraeth y Cynulliad;
- **Diwygio'r Còd Ymarfer;** Pam nad oes bwriad i ddiwygio'r Còd yn syth;
- **Paneli Apêl i adlewyrchu iaith eu hardal;** A fyddai hyn yn derbyn sylw yn y Còd Ymarfer diwygiedig.

Wrth ateb, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:
- **Amseru;** Dywedodd y Gweinidog na fu unrhyw broblem gydag amseru yn y gorffennol, ac y gallai cyflwyno terfynau amser newydd bellach achosi anawsterau ymarferol, yn enwedig i gyrff llywodraethol ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol ac ysgolion arbennig. Gellid,fodd bynnag, ail-drafod y mater yn y dyfodol a chynnal ymgynghoriad efallai;
- **Còd Ymarfer Diwygiedig;** Cyfeiriodd Y Gweinidog at baragraff 6.3 yng nghrynodeb yr ymateb i'r ymgynghori;
- **Paneli Apêl i adlewyrchu iaith eu hardal;** Mater i'r awdurdodau lleol oedd hyn**,** a byddai ganddynt eu cynlluniau iaith Gymraeg eu hunain.

Ni chynigiwyd unrhyw ddiwygio ac argymhellodd y Pwyllgor gymeradwyo'r rheoliadau drafft.

Peter Black AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Committee Service